

Ffurflen gyllid Canllawiau cwblhau

Awst 2026



Cyflwyniad	3
Cwmpas	3
Cywirdeb data	4
Y wybodaeth sy'n ofynnol	4
Llyfr gwaith y ffurflen gyllid	5
Amserlen ar gyfer cyflwyno	5
Canllawiau manwl	6
Gwybodaeth am y darparwr a dilysu	6
Gwybodaeth am y darparwr	6
Tablau ariannol	7
Tabl 1: Incwm a gwariant	7
Tabl 2: Mantolen	11
Tabl 3: Datganiad llif arian parod	15
Data cyd-destunol	17
Niferoedd myfyrwyr a dysgwyr	18
Staff cyfwerth â pherson llawn (CPLI)	21
Costau staff	21
Trefniadau banc ac ymrwymadau ariannol	22
Dangosyddion ariannol	24
Cynllunio senarios	24
Senario 1 a 2 – senarios anffafriol safonol	26
Senario 3 – senario anffafriol y darparwr ei hun	26
Dilysu ac adolygu cyn cyflwyno	27
Atodiad A – Manylion methodolegol	28
Cyfrifo niferoedd myfyrwyr a dysgwyr	28
Cyfrifo staff CPLI	28

Cyflwyniad

1. Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu darparwyr i gwblhau llyfr gwaith a sylwebaeth y ffurflen gyllid flynyddol.
2. Mae'r llyfr gwaith yn casglu gwybodaeth hanesyddol a rhagolygol am berfformiad a sefyllfa ariannol y darparwr, ynghyd â gwybodaeth am niferoedd myfyrwyr a dysgwyr.
3. Bydd Medr yn defnyddio'r data i asesu a monitro hyfywedd ariannol, cynaliadwyedd ariannol a risg. Os bydd angen, bydd Medr yn cysylltu â darparwyr er mwyn deall cyd-destun y data a gyflwynir.
4. Bydd Medr hefyd yn defnyddio'r data i ddeall tueddiadau a phatrymau yn y sector ehangach ac adrodd arnynt.
5. Dylid ystyried y canllawiau hyn ochr yn ochr ag amodau [cynaliadwyedd ariannol](#) a [llywodraethu a rheoli](#) Medr.

Cwmpas

6. Mae llyfr gwaith a sylwebaeth y ffurflen gyllid yn berthnasol i ddarparwyr sydd am gofrestru â Medr a darparwyr sy'n cael cyllid uniongyrchol gan Medr, ac sydd felly'n ddarostyngedig i delerau ac amodau cyllid Medr ac o fewn cwmpas¹ amodau [cynaliadwyedd ariannol](#) a [llywodraethu a rheoli](#) Medr.
7. *Nid* yw'n ofynnol i'r grwpiau canlynol o ddarparwyr sydd o fewn y cwmpas gwblhau'r templed hwn:
 - a) darparwyr sydd ymhlith y sefydliadau addysg bellach neu'r prifysgolion yng Nghymru sydd eisoes yn cyflwyno ffurflenni amgen i Medr. Dylai'r darparwyr hyn barhau i gwblhau eu ffurflenni sector presennol;
 - b) darparwyr y mae'n ofynnol iddynt gael dynodiad penodol yng Nghymru ac mae hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno ffurflen ariannol flynyddol i'r Swyddfa Fyfyrrwyr. Er mwyn lleihau'r baich, bydd Medr yn derbyn llyfr gwaith a sylwebaeth y ffurflen gyllid ddiweddaraf a gwblhawyd ar gyfer y Swyddfa Fyfyrrwyr fel opsiwn amgen yn lle'r ffurflen hon. Os bydd y dyddiad cyflwyno i Medr beth amser ar ôl y dyddiad cyflwyno i'r Swyddfa Fyfyrrwyr, bydd Medr yn disgwyl diweddariadau i sefyllfa ariannol y darparwr;
 - c) lle y caiff cyllid gan Medr yn cael ei ddarparu drwy awdurdod lleol yng Nghymru.
8. Dylai darparwyr nad ydynt yn cyflwyno ar gyfer cofrestriad cychwynnol, ac sydd â darpariaeth addysg bellach neu uwch yng Nghymru fel eu prif amcan a'u prif ffynhonnell incwm, gysylltu â Medr cyn cyflwyno er mwyn cytuno ar ba ffurflenni sy'n ofynnol.

¹ [Cwmpas amodau rheoleiddio](#)

9. Bydd y canllawiau hyn a'r templedi atodedig yn parhau i fod o fewn y cwrdd nes y bydd Medr yn cyhoeddi rhai newydd i'w disodli.
10. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ffurflen i sicrwydd@medr.cymru.

Cywirdeb data

11. Mae llyfr gwaith y ffurflen gyllid yn cynnwys baneri dilysu er mwyn helpu darparwyr i gwblhau'r llyfr gwaith yn gywir. Rhaid rhoi sylw i'r baneri hyn cyn cyflwyno'r llyfr gwaith. Os bydd amgylchiadau eithriadol yn golygu na ellir clirio baner ddilysu, dylai'r darparwr esbonio pam mae'r faner yno o hyd.
12. Mae Medr wedi cynnwys y gwiriadau dilysu hyn ar y data er mwyn helpu darparwyr i ganfod gwallau. Cyfrifoldeb y darparwr yw cywirdeb data bob amser. Dylai darparwyr fwrw golwg dros y wybodaeth cyn ei chyflwyno er mwyn sicrhau ei bod yn gywir ac yn gredadwy.
13. Bydd disgwyl i ddarparwyr ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau dilysu gan Medr, a chywiro ac ailgyflwyno'r ffurflen os bydd angen.
14. Bydd unrhyw ddata anghywir a gyflwynir yn cael eu hystyried wrth asesu rheolaeth ariannol y darparwr.

Y wybodaeth sy'n ofynnol

15. Rhaid i chi gwblhau a chyflwyno'r dogfennau canlynol:
 - a) llyfr gwaith y ffurflen gyllid ([Atodiad B](#));
 - b) sylwebaeth y ffurflen gyllid ([Atodiad C](#)); Mae'r ddogfen hon yn ategu data'r llyfr gwaith drwy roi cyd-destun ac esboniad.
 - c) rhagolwg o dderbyniadau a thaliadau arian parod misol hyd at ddiwedd blwyddyn gyntaf y rhagolygon. Gallwch ddefnyddio eich templed mewnol eich hun, ond dylai gynnwys llinellau ar wahân ar gyfer prif ffrydiau incwm a gwariant cylchol, gwariant cyfalaf neu wariant buddsoddi arall (ac unrhyw incwm grant cysylltiedig), a balansau arian parod a gaiff eu dwyn ymlaen a'u cario ymlaen bob mis. Lle y bo'n berthnasol, dylid dangos cyllid sydd ar gael i'w dynnu i lawr a hyblygrwydd mewn cyfleusterau banc.
16. Rhaid i chi gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig llawn² ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Os na fydd tair blynedd o ddatganiadau ariannol archwiliedig ar gael, bydd yn rhaid i chi drafod hyn gyda Medr. Byddwn yn ystyried a oes gwybodaeth arall ar gael a fyddai'n dangos hyfywedd a chynaliadwyedd ariannol i safon debyg.
17. Rhaid i ddatganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU a datganiadau perthnasol o'r arfer a argymhellir. Dylid dilyn cyfarwyddiadau Medr ar gyfer cyfrifon neu ganllawiau cyfatebol eraill lle bo hynny'n berthnasol.

² Ni chaiff datganiadau ariannol cryno eu derbyn.

18. Os caiff cyfrifon cyfunol eu paratoi, dylid cyflwyno'r rhain. Os na chaiff cyfrifon cyfunol eu paratoi, dylid rhoi digon o wybodaeth ychwanegol i Medr allu deall iechyd ariannol y grŵp ehangach yn ei gyfanrwydd.
19. Rhaid i ddatganiadau ariannol gael eu cyflwyno o fewn 10 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.
20. Rhaid i'r wybodaeth ariannol a gyflwynir gyfateb i lyfr gwaith y ffurflen gyllid.

Llyfr gwaith y ffurflen gyllid

21. Mae llyfr gwaith y ffurflen gyllid yn ymdrin â'r canlynol:
 - a) perfformiad ariannol hanesyddol;
 - b) rhagolygon pum mlynedd, gan gynnwys disgwyliadau wedi'u diweddarau ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
 - c) templedi cynllunio senarios;
 - d) dangosyddion ariannol (wedi'u hawtomeiddio).
22. Mae'r llyfr gwaith yn cynnwys pum dalen waith:
 - a) Gwybodaeth am y darparwr a dilysu: er mwyn casglu data sefydlog, teilwra'r ffurflen a gwirio'r ffurflen er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn ac yn gyson;
 - b) Dangosyddion ariannol: tabl wedi'i awtomeiddio a ddarperir er mwyn helpu i fwrw golwg dros y data;
 - c) Tablau ariannol: ar gyfer data ariannol hanesyddol a rhagolygon;
 - d) Data cyd-destunol: manylion pellach sy'n ofynnol, megis data dysgwyr a myfyrwyr³, a threfniadau banc;
 - e) Cynllunio senarios: er mwyn gwneud gwaith modelu sensitifrwydd ar eich rhagolygon ariannol.
23. Wrth gwblhau'r llyfr gwaith, sicrhewch eich bod yn mewnbynnu data ar gyfer pob blwyddyn.

Amserlen ar gyfer cyflwyno

24. Rhaid cyflwyno'r llyfr gwaith hwn o fewn 10 mis i ddyddiad diwedd blwyddyn y datganiadau ariannol archwiledig diweddaraf. Er enghraifft, byddai angen i endid y daw ei blwyddyn ariannol i ben ar 31 Gorffennaf 202X gyflwyno'r ffurflen hon i Medr erbyn 31 Mai 202Y.

³ Yn gyffredinol, defnyddir y term 'dysgwyr' ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau, a 'myfyrwyr' ar gyfer addysg uwch. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gallai'r naill neu'r llall fod yn berthnasol ac, i'r graddau hynny, dylid eu trin fel termau cyfnewidiadwy.

25. Lle bo'r ffurflen gyllid yn ofynnol fel rhan o waith monitro rheoleiddiol arall, er enghraifft dynodiadau neu brentisiaethau penodol, dylid cyflwyno'r ffurflenni gofynnol fel rhan o'r pecyn hwnnw.
26. Lle bo'r ffurflen yn ofynnol ar gyfer monitro cynaliadwyedd ariannol blyneddol at unrhyw ddiben arall, dylid cyflwyno'r ffurflenni gofynnol i sicrwydd@medr.cymru.

Canllawiau manwl

27. Rydym yn argymhell cwblhau'r llyfr gwaith yn y drefn ganlynol:
 - a) Gwybodaeth am y darparwr – bydd hyn yn teilwra'r ffurflen ar gyfer eich darparwr;
 - b) Tablau ariannol;
 - c) Data cyd-destunol;
 - d) Dangosyddion ariannol – edrychwch dros y rhain er mwyn sicrhau eu bod yn edrych yn rhesymol cyn symud ymlaen i'r cynllunio senarios;
 - e) Cynllunio senarios;
28. Mae'r canllawiau manwl isod yn dilyn y drefn uchod.
29. Nodir y dilysiadau gan ymdrin â phob tabl neu adran ar wahân, a dylid bwrw golwg drostynt a gwneud newidiadau ar ôl cwblhau pob un.
30. Rydym yn argymhell cwblhau'r dilysiad ar gyfer pob maes arall cyn cwblhau'r cynllunio senarios.

Gwybodaeth am y darparwr a dilysu

Gwybodaeth am y darparwr

31. Mae'r celloedd mewnbynnu wedi'u hamlygu'n felyn a byddant yn troi'n wyn ar ôl cael eu cwblhau. Mae hyn yn cynnwys rhai celloedd sy'n cynnwys cwymplenni.
32. Bydd y cwestiynau'n teilwra'r templed, yn casglu gwybodaeth adnabyddadwy sylfaenol, ac yn helpu i gadarnhau bod gofynion sylfaenol Medr wedi'u bodloni.
33. Yr hyn y dylid ei roi fel dyddiad diwedd y flwyddyn ariannol ddiweddaraf yw dyddiad diwedd blwyddyn y set ddiweddaraf o ddatganiadau ariannol a gyflwynir gyda'r ffurflen. Bydd hyn yn poblogi'r dyddiadau diwedd blwyddyn yn y tablau.
34. Os bydd eich dyddiad diwedd blwyddyn yn newid yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y ffurflen, gellir teipio dros y dyddiadau diwedd blwyddyn yn rhes 6 y tab tablau ariannol.
35. Gofynnwn p'un a yw pob blwyddyn wedi cael ei harchwilio ai peidio er mwyn i chi allu cadarnhau, os na fydd hyn wedi digwydd, eich bod wedi trafod y sefyllfa gyda ni

a chytuno ar ffordd o weithredu. Bydd hyn hefyd yn poblogi'r tablau, gan amlygu'r manau lle y defnyddiwyd datganiadau ariannol anarchwiliedig.

36. Gofynnwn am wybodaeth ariannol ar gyfer grwpiau er mwyn sicrhau bod gofynion ein hamodau cofrestru wedi'u bodloni.
37. Gofynnwn pwy yw eich archwilydd allanol er mwyn sicrhau ei fod yn gwmni cymeradwy.
38. Rhoddir canlyniad "Llwyddo" (a ddynodir mewn gwyrdd) neu "Methu" (a ddynodir mewn coch) i brofion dilysu. Bydd "Methu" yn dangos nad yw'r ffurflen yn cydymffurfio â'n gofynion ar hyn o bryd a bod angen rhywfaint o weithredu neu gywiro. Dylai'r cwestiwn nodi'n glir pa gam gweithredu sy'n ofynnol.
39. Rydym yn disgwyl i bob methiant dilysu gael ei gywiro. Mae blwch testun ar gael er mwyn rhoi esboniad os bydd amgylchiadau eithriadol yn golygu nad yw hyn yn bosibl.
40. Fel y nodir uchod, dylid bwrw golwg dros y dilysiadau a gwneud newidiadau fel y bo'n briodol wrth gwblhau pob tabl neu adran.

Tablau ariannol

Tabl 1: Incwm a gwariant

41. Bydd angen i bob darparwr gwblhau'r tabl hwn.
42. Dynodir y celloedd mewnbynnu gan gefndir gwyn a thestun glas. Mae gweddill y ddalen waith yn llwyd.
43. Rhaid i chi fewnbynnu data ar gyfer pob blwyddyn ac ym mhob rhes berthnasol.
44. Dylid mewnbynnu'r ffigurau mewn punnau sterling (£) neu filoedd o bunnau (£'000), fel y dewiswyd yn y data sefydlog ar gyfer y darparwr.
45. Dylai unrhyw newidiadau mewn data o un flwyddyn i'r llall gael eu hesbonio yn sylwebaeth y ffurflen gyllid. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau yn y data hanesyddol (archwiliedig) a'r data rhagolygol. Mae templed sylwebaeth y ffurflen gyllid yn cynnwys cwestiynau penodol er mwyn eich helpu i roi'r esboniadau gofynnol.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1a. Incwm addysg bellach	Cyllid cyhoeddus ar gyfer addysg bellach.	Cyllid gan Medr (neu gorff cyfatebol) fydd hwn fel arfer. Gan fod modd trosglwyddo incwm gan Medr rhwng darpariaeth amser llawn a rhan-amser, nid yw'r incwm wedi cael ei hollti.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1b_i. Incwm prentisiaethau a ariennir	Incwm contractau prentisiaethau neu gyllid mewn blynyddoedd i ddod.	Cyllid gan Medr (neu gorff cyfatebol) fydd hwn fel arfer.
1b_ii. Incwm gradd-brentisiaethau a ariennir	Incwm gradd-brentisiaethau	Cyllid gan Medr (neu gorff cyfatebol) fydd hwn fel arfer.
1b_iii. Incwm prentisiaethau â chymorth	Incwm contractau prentisiaethau â chymorth neu gyllid mewn blynyddoedd i ddod.	Cyllid gan Medr (neu gorff cyfatebol) fydd hwn fel arfer.
1c_i. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn sydd â'u domisil gartref ⁴ (yn y DU).	Dylech gynnwys ffioedd a delir i chi gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a ffioedd a delir yn uniongyrchol gan fyfyrwyr.
1c_ii. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr ôl-raddedig amser llawn o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr ôl-raddedig amser llawn sydd â'u domisil gartref (yn y DU).	Dylech gynnwys myfyrwyr a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.
1c_iii. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser sydd â'u domisil gartref ⁵ (yn y DU).	Dylech gynnwys ffioedd a delir i chi gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a ffioedd a delir yn uniongyrchol gan fyfyrwyr.
1c_iv. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser sydd â'u domisil gartref (yn y DU).	Dylech gynnwys myfyrwyr a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.
1d_i. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr israddedig amser llawn nad ydynt o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr israddedig amser llawn heb ddomisil gartref (nad ydynt o'r DU).	Dylech gynnwys ffioedd a delir i chi gan yr holl fyfyrwyr heb ddomisil yn y DU, p'un a oes angen fisa arnynt ai peidio. Esboniwch yn y sylwebaeth ar ba sail y mae myfyrwyr heb fisâu noddi myfyrwyr

⁴ Mae myfyrwyr sydd â'u domisil gartref yn cynnwys myfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU, myfyrwyr sydd â'u domisil yn yr UE ac sy'n gymwys i gael eu trin fel myfyrwyr cartref, a myfyrwyr sydd â hawl fel arall i dalu ffioedd myfyrwyr cartref.

⁵ Mae myfyrwyr sydd â'u domisil gartref yn cynnwys myfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU, myfyrwyr sydd â'u domisil yn yr UE ac sy'n gymwys i gael eu trin fel myfyrwyr cartref, a myfyrwyr sydd â hawl fel arall i dalu ffioedd myfyrwyr cartref.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1d_ii. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr ôl-raddedig amser llawn nad ydynt o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr ôl-raddedig amser llawn heb ddomisil gartref (nad ydynt o'r DU).	yn astudio â'ch darparwr, neu os oes unrhyw bryderon ynglŷn â throthwyon asesiadau cydymffurfiaeth sylfaenol ar gyfer fisâu.
1d_iii. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser nad ydynt o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr israddedig rhan-amser heb ddomisil gartref (nad ydynt o'r DU).	Dylech gynnwys ffioedd a delir i chi gan yr holl fyfyrwyr heb ddomisil yn y DU, p'un a oes angen fisa arnynt ai peidio. Esboniwch yn y sylwebaeth ar ba sail y mae myfyrwyr heb fisâu noddi myfyrwyr yn astudio â'ch darparwr, neu os oes unrhyw bryderon ynglŷn â throthwyon asesiadau cydymffurfiaeth sylfaenol ar gyfer fisâu.
1d_iv. Incwm ffioedd addysg uwch gan fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser nad ydynt o'r DU	Rhowch incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser heb ddomisil gartref (nad ydynt o'r DU).	
1e. Incwm ffioedd dysgu arall gan fyfyrwyr a dysgwyr nas ariennir	Rhowch incwm gan ddysgwyr sy'n astudio ar gyrsgiau eraill nas ariennir ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn 1a nac 1b uchod.	Dylech gynnwys incwm gan yr holl ddysgwyr o'r fath sydd wedi'u cofrestru â'ch darparwr. Er enghraifft, modiwlau sy'n arwain at gredyd a allai gyfrif tuag at gymhwyster addysg uwch, gradd sylfaen, Tystysgrif Genedlaethol Uwch.
1f. Incwm addysg drawswladol a phartneriaethau.	Rhowch unrhyw incwm a geir o weithgarwch addysg drawswladol ac o ddarpariaeth a gynhelir drwy bartneriaethau.	Yn y sylwebaeth, rhowch grynodedb o'r prif wledydd neu leoliadau sy'n rhan o'r gweithgarwch addysg drawswladol a'r prif drefniadau partneriaeth. Os oes sawl un, dylech gynnwys gwerth y prif drefniadau yn fras.
1g. Incwm arall gan gyllidwyr cyhoeddus	Rhowch unrhyw gyllid cyhoeddus a roddir i chi nad oes cyfrif amdano uchod.	Esboniwch y prif ffrydiau incwm yn y sylwebaeth, gan gynnwys meintoliad.
1h. Incwm arall	Rhowch unrhyw incwm gweithredu arall nad yw wedi'i gynnwys uchod.	Esboniwch y prif ffrydiau incwm yn y sylwebaeth, gan gynnwys meintoliad.
1i. Incwm rhodd	Rhowch unrhyw incwm rhodd heblaw gwaddolion (elusennau yn unig).	Dim ond i elusennau y bydd y llinell hon yn berthnasol fel arfer.
1j. Incwm llog a gwaddol	Rhowch incwm o fuddsoddiadau, cynilion a gwaddolion.	Bydd hyn yn cynnwys llog, difidendau ac enillion ar fuddsoddiadau. Dim ond elusennau fydd ag incwm gwaddol.
2a. Costau staff	Nid oes angen mewnbynnu data.	Caiff y data hyn eu casglu o dabl data cyd-destunol 3.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
2b. Cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr	Rhowch gyfanswm (gros) y gydnabyddiaeth ariannol i gyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr.	Bydd hyn yn cynnwys y costau llawn, gan gynnwys cyflogau, pensiynau, cyfraniadau yswiriant gwladol a bonysau.
2c. Costau gweithredu eraill	Rhowch yr holl gostau gweithredu eraill.	Costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd yw costau gweithredu. Ni ddylech gynnwys costau cynnal a chadw, dibrisiant na chyllid.
2d. Costau cynnal a chadw	Rhowch y costau sy'n ofynnol er mwyn cynnal a chadw safleoedd eich darparwr.	Dylech gynnwys costau atgyweirio a chynnal a chadw cyfleusterau a systemau, ond ni ddylech gynnwys cyflogau staff sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw (sydd wedi'u cynnwys yn 2a).
2e. Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad	Rhowch ddibrisiant ac amorteiddiad yn unol â pholisïau cyfrifyddu eich darparwr. Dylech gynnwys unrhyw amhariad asedau yma.	Costau cyfrifyddu sy'n adlewyrchu lleihad yng ngwerth asedau dros amser yw dibrisiant ac amorteiddiad. Mae amhariad yn adlewyrchu lleihad yng ngwerth defnyddiol ased.
2f. Costau llog a chostau cyllid eraill	Rhowch gostau llog a chyllido.	Dylech gynnwys llog ar fenthyciadau a threfniadau cyllido eraill gan gyfarwyddwyr, cyfranddalwyr, banciau neu ffynonellau allanol eraill.
4. Enillion / (colledion) ar asedau a buddsoddiadau; cyfran o warged / (diffyg) gweithredol mentrau ar y cyd a chyfranogion	Rhowch unrhyw enillion / (colledion) cyn treth eraill	Dylech gynnwys enillion / (colledion) ar werthu asedau diriaethol neu anniriaethol a buddsoddiadau ac unrhyw gyfran o warged / (diffyg) gweithredol mentrau ar y cyd neu gyfranogion.
5. Trethiant	Rhowch faint o dreth gorfforaeth (sy'n ddyledus) / sy'n ad-daladwy am y flwyddyn.	Y gost dreth am y flwyddyn fydd hyn. Mae'n bosibl y bydd yn wahanol i'r dreth a delir mewn gwirionedd.
7. Incwm / (gwariant) cynhwysfawr arall	Rhowch unrhyw linellau incwm neu wariant eraill o'ch cyfrifon blyneddol.	Dylech gynnwys enillion / (colledion) sydd heb eu cynnwys mewn gwarged / (diffyg) cyn treth. Bydd yr eitemau hyn yn cynnwys enillion neu (golledion) sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn, deilliadau, ailbrisiadau buddsoddiadau neu addasiadau trosi arian cyfred tramor.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
9. Difidendau	Rhowch y difidendau a ddatganwyd. Dylid rhoi'r rhain ar ffurf rhif negatif.	Dyma'r swm y cytunwyd y bydd yn cael ei dalu i gyfranddalwyr ar gyfer y flwyddyn, ac nid o reidrwydd yr arian parod a delir yn ystod y flwyddyn.

Tabl 2: Mantolen

46. Bydd angen i bob darparwr gwblhau'r tabl hwn.
47. Dynodir y celloedd mewnbynnu gan gefndir gwyn a thestun glas. Mae gweddill y ddalen waith yn llwyd.
48. Rhaid i chi fewnbynnu data ar gyfer pob blwyddyn ac ym mhob rhes berthnasol.
49. Dylid mewnbynnu'r ffigurau mewn punnau sterling (£) neu filoedd o bunnau (£'000), fel y dewiswyd yn y data sefydlog ar gyfer y darparwr.
50. Dylai unrhyw newidiadau mewn data o un flwyddyn i'r llall gael eu hesbonio yn sylwebaeth y ffurflen gyllid. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau yn y data hanesyddol (archwiliedig) a'r data rhagolygol. Mae templed sylwebaeth y ffurflen gyllid yn cynnwys cwestiynau penodol er mwyn eich helpu i roi'r esboniadau gofynnol.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1a. Asedau anniriaethol	Rhowch werth llyfr net unrhyw asedau anniriaethol a berchnogir.	Asedau heb sylwedd ffisegol yw asedau anniriaethol. Er enghraifft, ewyllys da, eiddo deallusol, meddalwedd. Maent yn asedau sefydlog os nad oes bwriad i'w gwerthu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn.
1b. Asedau diriaethol	Rhowch werth llyfr net unrhyw asedau diriaethol a berchnogir.	Asedau ac eiddo na ellir eu trosi'n arian parod yn hawdd yw'r rhain. Er enghraifft, adeiladau, offer a cherbydau a ddefnyddir dros sawl blwyddyn. Maent yn asedau sefydlog os nad oes bwriad i'w gwerthu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1c. Buddsoddiadau	Rhowch werth buddsoddiadau hirdymor.	Asedau na chânt eu defnyddio mewn gweithrediadau yw buddsoddiadau. Er enghraifft, eiddo tirol, stociau a chyfrannau, a chronfeydd ymddiriedolaeth, marchnad ariannol neu gydfuddiannol. Maent yn asedau sefydlog os nad oes bwriad i'w gwerthu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn.
1d. Arall	Rhowch werth unrhyw asedau hirdymor eraill.	Gallai hyn gynnwys asedau treftadaeth neu fuddsoddiadau mewn mentrau ar y cyd / cyfranogion, er enghraifft. Nodwch eu natur yn y sylwebaeth.
2a. Stoc	Rhowch werth stoc a ddelir.	Bydd hyn yn cynnwys eitemau a ddelir i'w hailwerthu neu eu defnyddio, neu nwyddau traul.
2b. Dyledwyr presennol (heb gynnwys partïon cysylltiedig)	Rhowch symiau sy'n ddyledus i'r darparwr.	Dylech gynnwys anfonebau heb eu talu i ddysgwyr a chleientiaid. Ni ddylid cynnwys unrhyw symiau sy'n ddyledus gan gyfarwyddwyr neu unigolion neu endidau cysylltiedig eraill a dylid eu cynnwys yn 2c yn lle hynny.
2c. Benthyciadau i gyfarwyddwyr / partïon cysylltiedig	Rhowch symiau sy'n ddyledus i'r darparwr.	Dylech gynnwys anfonebau heb eu talu i endidau cysylltiedig a benthyciadau di-log neu fenthyciadau sy'n dwyn llog a roddir i gyfarwyddwyr eich darparwr neu unigolion neu endidau cysylltiedig eraill. Dylech gynnwys natur a gwerth bras pob balans yn unigol ac unrhyw delerau ad-dalu yn y sylwebaeth.
2d. Buddsoddiadau byrdymor	Rhowch werth buddsoddiadau a werthir o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Unrhyw fuddsoddiadau y disgwylir iddynt drosi'n arian parod o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn yw buddsoddiadau byrdymor. Bydd hyn yn cynnwys cynilion, giltiau neu fondiau â chyfnod o lai na 12 mis ac adneuon â chyfnod o fwy na thri mis.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
2e. Arian parod yn y banc ac mewn llaw	Rhowch werth arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddelir.	Dylech gynnwys arian parod mewn llaw, sieciau heb eu hadneuo, arian mewn cyfrifon cyfredol, cynilo a marchnad arian, a buddsoddiadau hylifol byrdymor a fydd yn aeddfedu ymhen tri mis neu lai ar adeg eu prynu. Dylai balansau banc mewn gorddrafft gael eu cynnwys yn 3a.
2f. Arall	Rhowch werth unrhyw asedau cyfredol eraill a ddelir.	Dylech gynnwys unrhyw asedau eraill y disgwylir iddynt gael eu gwireddu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.
3a. Gorddrafftiau banc	Rhowch falans unrhyw orddrafftiau banc ar ddiwedd y flwyddyn.	Dylai balansau banc mewn gorddrafft gael eu cynnwys yma ac ni ddylid eu netio yn erbyn arian parod yn y banc ac mewn llaw.
3b. Cyfran bresennol benthyciadau banc a benthyciadau allanol (gan gynnwys lesioedd cyllid)	Rhowch swm y benthyciadau banc a benthyciadau allanol a fydd yn ddyledus i'w had-dalu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Dylech gynnwys cyfran bresennol benthyciadau banc, benthyciadau allanol, lesioedd cyllid a threfniadau tebyg. Dylai'r elfen a fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn gael ei chynnwys yn 7a.
3c. Benthyciadau gan gyfarwyddwyr / partion cysylltiedig	Rhowch swm y benthyciadau gan gyfarwyddwyr neu bartion cysylltiedig a fydd yn ddyledus i'w had-dalu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Dylech gynnwys benthyciadau gan gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr, cyfranddalwyr, endidau grŵp neu unigolion neu endidau cysylltiedig eraill. Dylech gynnwys natur a gwerth bras pob balans yn unigol ac unrhyw delerau ad-dalu yn y sylwebaeth.
3d. Ffioedd gohiriedig	Rhowch ffioedd a geir ymlaen llaw.	Symiau a ddaw i law cyn i'r addysgu neu'r gwasanaeth cysylltiedig gael ei ddarparu yw ffioedd gohiriedig. Bydd hyn yn digwydd pan fydd diwedd y flwyddyn ariannol yn wahanol i ddiwedd y flwyddyn academaidd, a / neu yn achos cyrsiau sy'n dechrau ar ganol y flwyddyn.
3e. Costau treth a nawdd cymdeithasol	Rhowch symiau treth a nawdd cymdeithasol a fydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Dylech gynnwys unrhyw symiau a fydd yn ddyledus ar gyfer treth gorfforaeth, TAW, TWE, yswiriant gwladol ac unrhyw rwymedigaethau treth perthnasol eraill.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
3f. Rhwymedigaethau eraill (heb gynnwys partïon cysylltiedig)	Rhowch rhwymedigaethau eraill a fydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Dylech gynnwys credydwy'r masnach, croniadau a rhwymedigaethau byrdymor eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod. Ni ddylid cynnwys unrhyw symiau sy'n ddyledus i gyfarwyddwyr neu unigolion neu endidau cysylltiedig eraill a dylid eu cynnwys yn 3c yn lle hynny.
4. Cyfran o asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net mewn cyfrannog	Rhowch gyfran y darparwr o asedau neu rhwymedigaethau cyfredol net sydd mewn cyfrannog, lle bo hynny'n berthnasol.	Dim ond os oes gan y darparwr gyfrannog a bod y balans hwn wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol y dylid cwblhau'r rhan hon. Esboniwch natur y cyfrannog a'r sail dros y balans yn y sylwebaeth.
7a. Benthyciadau banc a benthyciadau allanol (gan gynnwys lesoedd cyllid)	Rhowch swm y benthyciadau banc a'r benthyciadau allanol a fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.	Dylech gynnwys elfen hirdymor benthyciadau banc, benthyciadau allanol, lesoedd cyllid a threfniadau tebyg. Dylai'r elfen a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn gael ei chynnwys yn 3b. Esboniwch drefniadau benthycia, gwarant a chyfamod perthnasol yn y sylwebaeth.
7b. Benthyciadau gan gyfarwyddwyr / partïon cysylltiedig	Rhowch swm benthyciadau gan gyfarwyddwyr neu bartïon cysylltiedig a fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.	Dylech gynnwys benthyciadau gan gyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr, cyfranddalwyr, endidau grŵp neu unigolion neu endidau cysylltiedig eraill. Dylech gynnwys natur a gwerth bras pob balans yn unigol ac unrhyw delerau ad-dalu yn y sylwebaeth.
7c. Rhwymedigaethau eraill	Rhowch rhwymedigaethau eraill a fydd yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.	Dylech gynnwys rhwymedigaethau hirdymor nad ydynt wedi'u cynnwys uchod, megis treth ohiriedig, rhwymedigaethau pensiwn neu rhwymedigaethau hirdymor eraill. Esboniwch falansau perthnasol yn y sylwebaeth.
8. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau	Rhowch gyfanswm balans darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau.	Swm a neilltuir ar gyfer rhwymedigaeth ariannol debygol ond ansicr yw darpariaeth. Esboniwch ddarpariaethau perthnasol yn y sylwebaeth.
9. Cyfanswm asedau net	Nid oes angen mewnbynnu data.	Bydd y rhes hon yn awto-gyfrifo cyfanswm yr asedau net. Dylai hyn gyfateb i gyfanswm y cronfeydd wrth gefn yn 10z.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
10a. Cyfalaf cyfrannau	Rhowch falans y cyfalaf cyfrannau.	Dim ond i ddarparwyr â chyfalaf cyfrannau dyroddedig y bydd hyn yn berthnasol fel arfer.
10b. Cronfa incwm a gwariant	Rhowch falans y gronfa incwm a gwariant.	Bydd hyn yn cynrychioli gwargedau neu ddiffygion cronedig dros amser.
10c. Cronfeydd cyfyngedig a gwaddol	Rhowch falans y cronfeydd cyfyngedig a gwaddol.	I elusennau neu ddarparwyr â chronfeydd sy'n destun cyfyngiadau y bydd hyn yn berthnasol fel arfer. Esboniwch falansau cyfyngedig neu waddol perthnasol yn y sylwebaeth.
10d. Cronfeydd wrth gefn eraill	Rhowch falans unrhyw gronfeydd wrth gefn eraill.	Dylech gynnwys cronfeydd wrth gefn nad ydynt wedi'u cofnodi yn unman arall, megis cronfeydd ailbrisio wrth gefn neu bremiwm cyfranddaliadau.
10z. Cyfanswm cronfeydd wrth gefn	Nid oes angen mewnbynnu data.	Bydd y rhes hon yn awto-gyfrifo cyfanswm y cronfeydd wrth gefn. Dylai cyfanswm y cronfeydd wrth gefn fod yn hafal i gyfanswm yr asedau net yn 9.

Tabl 3: Datganiad llif arian parod

51. Nid yw'r tabl hwn yn ofynnol ar gyfer cofrestriad cychwynnol darparwyr prentisiaethau lle na chaiff datganiad llif arian parod ei baratoi fel arfer. Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer blynyddoedd sydd i ddod.
52. Dynodir y celloedd mewnbynnu gan gefndir gwyn a thestun glas ac mae gweddill y ddalen waith yn llwyd.
53. Rhaid i chi fewnbynnu data ar gyfer pob blwyddyn ac ym mhob rhes berthnasol.
54. Dylid mewnbynnu'r ffigurau mewn punnau sterling (£) neu filoedd o bunnau (£'000), fel y dewiswyd yn y data sefydlog ar gyfer y darparwr.
55. Dylai'r datganiad llif arian parod fod yn gyson â'r arian parod yn y banc ac mewn llaw a nodir yn y fantolen, gan ystyried gorddrafftiau lle bo hynny'n berthnasol.
56. Dylai unrhyw newidiadau mewn llifoedd arian parod o un flwyddyn i'r llall gael eu hesbonio yn sylwebaeth y ffurflen gyllid, gan gynnwys symudiadau sylweddol o ran cynhyrchu arian parod gweithredu, gwariant cyfalaf, benthyciadau, ad-dalu benthyciadau neu weithgarwch cyllido arall.
57. Lle y ceir cwymplenni, bydd y rhain wedi'u hamlygu'n felyn cyn iddynt gael eu cwblhau, er mwyn ei gwneud yn haws eu gweld.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
2a–2e. Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod	Rhowch yr addasiadau perthnasol ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod.	Dylech gynnwys dibrisiant ac amorteiddiad, newidiadau i gyfalaf gweithio, symudiadau o ran credydwy a darpariaethau, ac eitemau eraill nad ydynt yn arian parod. Bydd y llinellau hyn yn trosi'r gwarged / (diffyg) a nodir yn fewnlif / (all-lif) arian parod gweithredu.
3a–3e. Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido	Rhowch yr addasiadau perthnasol.	Dylech gynnwys incwm o fuddsoddiadau, llog taladwy, enillion neu golledion ar waredu asedau, incwm grant cyfalaf ac addasiadau eraill y mae angen eu hepgor o'r llif arian parod gweithredu a'u dangos yn yr adran briodol ar fuddsoddi neu gyllido.
4. Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu	Nid oes angen mewnbynnu data.	Bydd y rhes hon yn awto-gyfrifo'r arian parod a gynhyrchir neu a ddefnyddir gan weithgarwch gweithredu craidd.
5a–5g. Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi	Rhowch fewnlifoedd ac all-lifoedd o weithgarwch buddsoddi.	Dylech gynnwys enillion o werthu asedau, derbyniadau grant cyfalaf, incwm o fuddsoddiadau, tynnu adneuon yn ôl, adneuon newydd a thaliadau er mwyn caffael asedau.
6a–6f. Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido	Rhowch fewnlifoedd ac all-lifoedd arian parod o weithgarwch cyllido.	Dylech gynnwys llog a delir, benthyciadau newydd, ad-daliadau benthyciadau, gwaddolion, difidendau a delir a llifoedd arian parod cyllido eraill.
8–9. Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn	Rhowch arian parod agoriadol yn y banc ac mewn llaw (gan gynnwys gorddrafftiau) lle bo angen.	Mae fformiwlâu wedi cael eu defnyddio ar gyfer rhai celloedd. Dylai'r celloedd hyn gyfateb i arian parod diwedd blwyddyn y cyfnod blaenorol.
9. Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn	Gwiriwch yr arian parod terfynol yn y banc ac mewn llaw (gan gynnwys gorddrafftiau).	Dylai'r arian parod terfynol gyfateb i'r arian parod yn y banc ac mewn llaw yn y fantolen, wedi'i addasu ar gyfer gorddrafftiau lle bo hynny'n berthnasol.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
Tabl 3a_1a. Sefyllfa isaf o ran arian parod yn ystod y flwyddyn	Rhowch y sefyllfa isaf o ran arian parod a'r mis pan gyfyd hyn ar gyfer blyneddod y rhagolygon.	Caiff hyn ei ddefnyddio i ddeall eich risg hylifedd yn ystod y flwyddyn. Pan fydd y sefyllfa isaf o ran arian parod yn sylweddol wahanol i'r balans ar ddiwedd y flwyddyn, esboniwrch y rheswm yn y sylwebaeth.
Tabl 3a_1b. Sefyllfa isaf o ran arian parod yn ystod y flwyddyn – mis	Dewiswch fis y llif arian parod isaf o'r gwymplen.	Caiff hyn ei ddefnyddio i ddeall eich risg hylifedd yn ystod y flwyddyn.

Data cyd-destunol

58. Bydd yn rhaid i bob darparwr gwblhau'r tablau hyn.
59. Dynodir y celloedd mewnbynnu gan gefndir gwyn a thestun glas. Mae gweddill y ddalen waith yn llwyd.
60. Bydd y ddalen waith data cyd-destunol yn casglu niferoedd myfyrwyr a dysgwyr, niferoedd staff, dadansoddiad o gostau staff a manylion trefniadau banc ac ymrwymadau ariannol.
61. Rhaid i chi gwblhau pob rhes berthnasol ar gyfer pob flwyddyn. Dylid rhoi niferoedd myfyrwyr a dysgwyr ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau a dylid rhoi niferoedd staff ar ffurf niferoedd cyfwerth â pherson llawn (CPLI), nid cyfrif pennau. Gweler y canllawiau ar gyfrifo'r niferoedd hyn yn [Atodiad A](#).
62. Dylech gynnwys myfyrwyr a dysgwyr sydd wedi'u cofrestru â'ch darparwr. Peidiwch â chynnwys myfyrwyr a dysgwyr sydd wedi'u cofrestru â darparwr arall oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn rhagolygon ariannol eich darparwr a bod y driniaeth hon yn cael ei hesbonio yn y sylwebaeth.
63. Dylai'r data cyd-destunol ategu'r tablau ariannol a bod yn gyson â nhw. Er enghraifft, dylai incwm ffioedd addysg uwch fod yn gyson â'r niferoedd myfyrwyr addysg uwch a roddir yn y ddalen waith hon. Os caiff incwm ei gofnodi heb fod niferoedd myfyrwyr wedi'u mewnbynnu, neu'r ffordd arall, mae'n bosibl y caiff gwiriadau dilysu eu sbarduno.
64. Dylai newidiadau sylweddol mewn niferoedd myfyrwyr a dysgwyr, niferoedd staff, costau staffio neu drefniadau banc gael eu hesbonio yn y sylwebaeth.
65. Gweler manylion y fethodoleg ar gyfer cyfrifo niferoedd myfyrwyr a dysgwyr a staff CPLI yn [Atodiad A](#).
66. Lle y ceir cwympenni, bydd y rhain wedi'u hamlygu'n felyn cyn iddynt gael eu cwblhau, er mwyn ei gwneud yn haws eu gweld.

Niferoedd myfyrwyr a dysgwyr

67. Gweler y fethodoleg yn Atodiad A [Cyfrifo niferoedd myfyrwyr a dysgwyr](#).

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1a_i. Dysgwyr addysg bellach amser llawn 1a_i. Dysgwyr addysg bellach amser llawn	Rhowch yr holl niferoedd dysgwyr addysg bellach amser llawn ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau. Rhowch yr holl niferoedd dysgwyr addysg bellach amser llawn ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Bydd y rhes hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer incwm addysg bellach.
1a. Dysgwyr addysg bellach rhan-amser	Rhowch yr holl niferoedd dysgwyr addysg bellach rhan-amser ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Bydd y rhes hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer incwm addysg bellach.
1b. Dysgwyr prentisiaethau a ariennir	Rhowch niferoedd y dysgwyr prentisiaethau a ariennir ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Bydd y rhes hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer incwm prentisiaethau.
1b. Dysgwyr gradd-brentisiaethau a ariennir	Rhowch niferoedd y dysgwyr gradd-brentisiaethau a ariennir ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Bydd y rhes hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer incwm prentisiaethau.
1b. Dysgwyr prentisiaethau â chymorth	Rhowch niferoedd y dysgwyr prentisiaethau â chymorth ar bob lefel ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Bydd y rhes hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer incwm prentisiaethau.
1c_i. Myfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn sydd â'u domisil gartref (yn y DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau. Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn	Mae myfyrwyr gradd israddedig yn cynnwys cyrsiau gradd â blwyddyn Meistr integredig neu flwyddyn sylfaen integredig, p'un a gânt eu cyllido'n gyhoeddus gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ai peidio.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
	sydd â'u domisil gartref ⁶ (yn y DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	
1c_ii. Myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig amser llawn o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig amser llawn sydd â'u domisil gartref ² (yn y DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Cyrsiau sydd ag amod mynediad arferol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddechreuwyd feddu eisoes ar gymhwyster ar lefel gradd yw cyrsiau ôl-raddedig.
1c_iii. Myfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser sydd â'u domisil gartref (yn y DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau. Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser sydd â'u domisil gartref ⁷ (yn y DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Mae myfyrwyr gradd israddedig yn cynnwys cyrsiau gradd â blwyddyn Meistr integredig neu flwyddyn sylfaen integredig, p'un a gânt eu cyllido'n gyhoeddus gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ai peidio.
1c_iv. Myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig rhan-amser o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig rhan-amser sydd â'u domisil gartref ² (yn y DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Cyrsiau sydd ag amod mynediad arferol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddechreuwyd feddu eisoes ar gymhwyster ar lefel gradd yw cyrsiau ôl-raddedig.
1d_i. Myfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn nad ydynt o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn sydd heb ddomisil gartref (nad ydynt o'r DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau. Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig amser llawn	Dylech gynnwys myfyrwyr nad ydynt o'r DU sy'n cyfateb i'r diffiniad o fyfyrwyr israddedig yn 1c_i uchod.

⁶ Mae myfyrwyr sydd â'u domisil gartref yn cynnwys myfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU, myfyrwyr sydd â'u domisil yn yr UE ac sy'n gymwys i gael eu trin fel myfyrwyr cartref, a myfyrwyr sydd â hawl fel arall i dalu ffioedd myfyrwyr cartref.

⁷ Mae myfyrwyr sydd â'u domisil gartref yn cynnwys myfyrwyr sydd â'u domisil yn y DU, myfyrwyr sydd â'u domisil yn yr UE ac sy'n gymwys i gael eu trin fel myfyrwyr cartref, a myfyrwyr sydd â hawl fel arall i dalu ffioedd myfyrwyr cartref.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
	sydd heb ddomisil gartref ⁸ (nad ydynt o'r DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	
1d_ii. Myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig amser llawn nad ydynt o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig amser llawn sydd heb ddomisil gartref ³ (nad ydynt o'r DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Dylech gynnwys myfyrwyr nad ydynt o'r DU sy'n cyfateb i'r diffiniad o fyfyrwyr ôl-raddedig yn 1c_ii uchod.
1d_iii. Myfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser nad ydynt o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser sydd heb ddomisil gartref (nad ydynt o'r DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau. Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch israddedig rhan-amser sydd heb ddomisil gartref ⁹ (nad ydynt o'r DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Dylech gynnwys myfyrwyr nad ydynt o'r DU sy'n cyfateb i'r diffiniad o fyfyrwyr israddedig yn 1c_i uchod.
1d_iv. Myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig rhan-amser nad ydynt o'r DU	Rhowch niferoedd y myfyrwyr addysg uwch ôl-raddedig rhan-amser sydd heb ddomisil gartref ³ (nad ydynt o'r DU) ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Dylech gynnwys myfyrwyr nad ydynt o'r DU sy'n cyfateb i'r diffiniad o fyfyrwyr ôl-raddedig yn 1c_ii uchod.
1e. Incwm ffioedd dysgu arall gan ddysgwyr nas ariennir	Rhowch fyfyrwyr neu ddysgwyr sy'n astudio ar gyrsiau eraill nad ydynt yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus, ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn 1a i 1d uchod ar ffurf rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau.	Dylech gynnwys yr holl fyfyrwyr o'r fath sydd wedi'u cofrestru â'ch darparwr.

⁸ Myfyrwyr sydd â'u domisil y tu allan i'r DU neu'r UE, neu fyfyrwyr sydd â'u domisil yn yr UE ac nad ydynt yn gymwys i dalu ffioedd cartref.

⁹ Myfyrwyr sydd â'u domisil y tu allan i'r DU neu'r UE, neu fyfyrwyr sydd â'u domisil yn yr UE ac nad ydynt yn gymwys i dalu ffioedd cartref.

Staff cyfwerth â pherson llawn (CPLI)

68. Gweler y fethodoleg yn Atodiad A [Cyfrifo staff CPLI](#).
69. Diffinnir staff **academaidd**, gan gynnwys staff ar gontract, fel gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo a chynnal gweithgareddau addysgu a / neu ymchwil academaidd. Ymhlith yr enghreifftiau y tu hwnt i staff addysgu mae is-gangellorion / prifathrawon, ymarferwyr meddygol, deintyddion, milfeddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau darlithio neu ymchwil.
70. Diffinnir staff **eraill**, gan gynnwys staff ar gontract, fel aelodau o staff nad oes ganddynt gontract academaidd, gan gynnwys rheolwyr, gweithwyr proffesiynol anacademaidd, gweithwyr lles dysgwyr, ysgrifenyddion, gofalwyr a glanhawyr.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
2a. Staff academaidd	Rhowch niferoedd staff academaidd ar ffurf CPLI.	Dylech gynnwys yr holl staff perthnasol, gan gynnwys staff rhan-amser, staff a delir fesul awr a staff ar gontract lle bo'r rhain wedi'u cynnwys ym model staffio'r darparwr.
2b. Staff eraill	Rhowch niferoedd staff anacademaidd ar ffurf CPLI.	Dylech gynnwys yr holl staff perthnasol, gan gynnwys staff rhan-amser, staff a delir fesul awr a staff ar gontract lle bo'r rhain wedi'u cynnwys ym model staffio'r darparwr.

Costau staff

71. Ni ddylai'r rhain gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chydabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr. Dylai costau o'r fath gael eu cynnwys yn nhabl 1_2b.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
3a. Cyflogau	Rhowch gostau gros cyflogau.	Dylai hyn gynnwys bonysau, comisiynau, goramser, lwfansau a thâl gwyliau / salwch. Dylai hyn fod cyn unrhyw ddiidyniadau megis aberthu cyflog, treth incwm, cyfraniadau pensiwn / yswiriant gwladol y cyflogwr a phreimiymau yswiriant iechyd.
3b. Nawdd cymdeithasol	Rhowch gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.	Dylech gynnwys holl gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
3c. Pensiynau	Rhowch y costau pensiwn.	Costau gwirioneddol cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar gyfer y cyfnod ariannol ddylai hyn fod.
3d. Addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod	Rhowch unrhyw addasiadau pensiwn nad ydynt yn arian parod.	Bydd hyn yn cynnwys unrhyw addasiad sy'n ofynnol er mwyn adlewyrchu prisiad cynlluniau cyflogwyr â buddion wedi'u diffinio, megis Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
3e. Costau ailstrwythuro	Rhowch unrhyw gostau yr eir iddynt wrth ymgymryd â phrosesau ad-drefnu.	Bydd hyn yn cynnwys setliadau dileu swyddi cyflogeion a chostau eraill y tybir eu bod y tu allan i gwrs arferol busnes. Dylech gynnwys esboniad yn sylwebaeth y ffurflen gyllid.

Trefniadau banc ac ymrwymadau ariannol

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
4a. Cyfleusterau banc heb eu defnyddio	Rhowch gyfleusterau ymrwymedig sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn.	Dylech gynnwys cyfleusterau sydd ar gael i'r darparwr eu tynnu i lawr er mwyn ategu hyblygrwydd arian parod gweithredu, yn amodol ar delerau arferol. Ni ddylech gynnwys cyfleusterau nad ydynt wedi'u hymrwymo neu lle bo mynediad yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y rhoddwr benthyciadau yn y dyfodol. Dylech gynnwys manylion y telerau (hyd, cost, unrhyw gyfamodau a'r hyblygrwydd mewn perthynas â'r rhain) yn y sylwebaeth.
4b_i. Ad-daliadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn	<i>Dim ond lle na ofynnwyd am ddatganiad llif arian parod y bydd hyn yn ofynnol.</i> Rhowch yr holl ad-daliadau cyfalaf ar fenthyciadau.	Dylai hyn gynnwys yr holl arian a dalwyd, neu y rhagwelir y caiff ei dalu, i leihau'r swm cyfalaf sy'n ddyledus ar unrhyw fenthyciadau, lesoedd cyllid neu fenthyciadau eraill a ddelir gan y darparwr. Dylai hyn gynnwys benthyciadau cyfarwyddwyr ac unrhyw bartïon cysylltiedig eraill.
4b_ii. Ad-daliadau llog yn ystod y flwyddyn	<i>Dim ond lle na ofynnwyd am ddatganiad llif arian</i>	Dylai hyn gynnwys llog a dalwyd, neu y rhagwelir y caiff ei dalu, i gynnal unrhyw

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
	<i>parod y bydd hyn yn ofynnol.</i> Rhowch yr holl ad-daliadau llog ar fenthyciadau.	fenthyciadau, lesoedd cyllid a benthyciadau eraill. Dylai hyn gynnwys benthyciadau cyfarwyddwyr ac unrhyw bartïon cysylltiedig eraill.
Tabl 4c_i. Sefyllfa isaf o ran arian parod yn ystod y flwyddyn	<i>Dim ond lle na ofynnwyd am ddatganiad llif arian parod y bydd hyn yn ofynnol.</i> Rhowch y sefyllfa isaf o ran arian parod a'r mis pan gyfyd hyn ar gyfer blynyddoedd y rhagolygon.	Caiff hyn ei ddefnyddio i ddeall eich risg hylifedd yn ystod y flwyddyn. Pan fydd y sefyllfa isaf o ran arian parod yn sylweddol wahanol i'r balans ar ddiwedd y flwyddyn, esboniwrch y rheswm yn y sylwebaeth.
4c_ii. Sefyllfa isaf o ran arian parod yn ystod y flwyddyn – mis	<i>Dim ond lle na ofynnwyd am ddatganiad llif arian parod y bydd hyn yn ofynnol.</i> Dewiswch fis y llif arian parod isaf o'r gwymplen.	Caiff hyn ei ddefnyddio i ddeall eich risg hylifedd yn ystod y flwyddyn.
4d. Benthyciadau a ddelir		
4d_i. Math	Dewiswch y math priodol o fenthyciad o'r gwymplen.	Pan gaiff 'arall' ei ddewis, gofynnir am ragor o fanylion.
4d_ii. £	Rhowch swm pob benthyciad ar wahân.	Dylai benthyciadau gynnwys: - symiau cyfleusterau heb eu defnyddio ac wedi'u defnyddio (yn unol â 4a. uchod) - benthyciadau gan gyfarwyddwyr neu bartïon cysylltiedig eraill
4d_iii. Gwarantedig / anwarantedig	Dewiswch yr opsiwn priodol o'r gwymplen.	Benthyciadau lle mae'r benthyciwr wedi cynnig ased neu warant i'r rhoddwr benthyciad os na chaiff y benthyciad ei ad-dalu yw benthyciadau gwarantedig.
4d_iv Dyddiad ad-dalu	Rhowch y dyddiad pan ddaw'r benthyciad i ben.	Dylech gynnwys manylion y dull ad-dalu (os nad benthyciad cyfnod penodol ydyw) yn y sylwebaeth. Er enghraifft, benthyciad bwled neu falŵn, sydd ill dau yn cynnwys swm terfynol mawr, neu ar alw.
4d_v. Math o log	Dewiswch yr opsiwn priodol o'r gwymplen.	Caiff cyfraddau sefydlog eu pennu am gyfnod y cytunwyd arno. Bydd cyfraddau amrywiadwy fel arfer yn gysylltiedig â chyfradd meincnod neu

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
		sylfaen, felly bydd yr ad-daliadau'n codi ac yn gostwng.
4d_vi. Cyfradd llog	Rhowch y gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo llog.	Mae'n bosibl y bydd hyn fymryn yn uwch na SONIA neu'n gyfradd sefydlog.

Dangosyddion ariannol

72. Mae'r ddalen waith dangosyddion ariannol wedi'i hawtomeiddio. Fe'i darperir er mwyn helpu darparwyr i fwrw golwg dros y wybodaeth a fewnbynwyd mewn rhannau eraill o'r llyfr gwaith.
73. Nid oes angen mewnbynnu data ar y ddalen waith hon.
74. Dylai darparwyr fwrw golwg dros y dangosyddion cyn cyflwyno'r llyfr gwaith. Os bydd yn ymddangos nad yw'r dangosyddion yn adlewyrchu sefyllfa ariannol ddisgwyliedig y darparwr, gwiriwch y ffigurau sydd wedi'u mewnbynnu yn y llyfr gwaith sylfaenol er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir.
75. Darperir y dangosyddion at ddibenion asesu dangosol ac er mwyn helpu i fwrw golwg dros y llyfr gwaith. Ni ddylid eu dehongli fel gofynion na throthwyon gan Medr. Bydd Medr yn asesu perfformiad ariannol a risg gan ddefnyddio gwybodaeth ariannol, sylwebaeth a chyd-destun perthnasol y darparwr.
76. Os bydd dangosyddion yn dangos dirywiad sylweddol, anwadalrwydd neu symudiad anarferol, dylid esbonio'r rheswm sylfaenol yn sylwebaeth y ffurflen gyllid.

Cynllunio senarios

77. Bydd yn rhaid i bob darparwr gwblhau'r tablau hyn.
78. Dynodir y celloedd mewnbynnu gan gefndir gwyn a thestun glas. Mae gweddill y ddalen waith yn llwyd.
79. Defnyddir cynllunio senarios i ddeall sut y byddai rhagolygon ariannol y darparwr yn newid yn unol â rhagdybiaethau anffafriol cyffredin.
80. Dylid cwblhau'r ddalen waith cynllunio senarios ar ôl bwrw golwg dros y tablau ariannol, y data cyd-destunol a'r dangosyddion ariannol.
81. Mae'r llyfr gwaith yn cynnwys tair senario:
 - a) Mae senarios 1 a 2 wedi'u cyfuno mewn un tabl. Senarios anffafriol a model rhagamcanu ar gyfer blwyddyn 1 yn unig wedi'u hawtomeiddio ar y cyfan yw'r rhain.
 - i. Mae senario 1 yn rhagdybio na fydd dim twf o'r flwyddyn (amcangyfrif) gyfredol o ran yr holl fyfyrwyr a dysgwyr newydd ac incwm o ffioedd

dysgu ar gyfer pob lefel a domisil. Rhagdybir y bydd gwariant yn aros yr un fath â rhagolwg 1.

- ii. Mae senario 2 yn rhagdybio sefyllfaoedd anffafriol safonol o ran myfyrwyr a dysgwyr newydd a / neu incwm o ffioedd dysgu. Rhagdybir y bydd gwariant yn aros yr un fath â rhagolwg 1. Mae'r senarios safonol fel a ganlyn:

- Addysg bellach – lleihad o 5% mewn cyllid;
- Prentisiaethau, gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau â chymorth – lleihad o 5% mewn myfyrwyr a dysgwyr newydd;
- Israddedigion cartref addysg uwch amser llawn – lleihad o 5% mewn myfyrwyr a dysgwyr newydd;
- Ôl-raddedigion tramor addysg uwch amser llawn – lleihad o 10% mewn myfyrwyr a dysgwyr newydd;
- Ffrydiau ffioedd dysgu eraill – cofrestriadau ac incwm isaf o 2025/26 ymlaen.

Mesurau lliniaru – ceir opsiwn i nodi lefel y mesurau lliniaru gwariant sy'n ofynnol ar gyfer pob senario. Nodir hyn fel mesurau sy'n gysylltiedig â chyflogau neu fesurau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau, i ddychwelyd gwarged / diffyg llai, neu ohirio buddsoddiad (gan gynnwys gwariant cyfalaf) er mwyn cadw asedau hylifol. Mae effaith y mesurau lliniaru ar warged / (diffyg) ac asedau hylifol wedi'u cynnwys yn y modelau.

- b) Mae senario 3 yn cydnabod yr amrywiaeth sydd yn y sector ac yn ei gwneud yn ofynnol i chi gwblhau eich senario anffafriol realistig eich hun. Dylai'r rhesi ar gyfer niferoedd dysgwyr, incwm a gwariant, ac asedau hylifol gael eu cwblhau ar gyfer holl flynyddoedd y rhagolygon.

82. Dylai'r sylwebaeth esbonio'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd, yr effaith ar berfformiad ariannol a hylifedd, ac unrhyw fesurau lliniaru y byddai'r darparwr yn disgwyl eu rhoi ar waith pe bai'r senario'n codi.
83. Dylai mesurau lliniaru fod yn realistig ac yn gyflawnadwy. Lle bo mesurau lliniaru'n dibynnu ar gymeradwyaeth gan drydydd parti, newidiadau staffio, lleihad mewn gwariant arfaethedig, cyllid ychwanegol neu newidiadau i'r ffordd y caiff cyrsiau eu cyflwyno, dylid nodi hyn yn glir.
84. Lle bo'r senarios yn nodi pwysau ar arian parod, hylifedd, cyfamodau benthyciadau neu gynaliadwyedd ariannol, dylid esbonio hyn yn y sylwebaeth ynghyd ag ymateb arfaethedig y darparwr.

Senario 1 a 2 – senarios anffafriol safonol

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1. Niferoedd myfyrwyr a dysgwyr	Wedi'i awtomeiddio ar y cyfan – rhowch hyd cwrs ar gyfartaledd.	Senario 2 – rhowch hyd cwrs ar gyfartaledd yng ngholofn K lle y nodir hynny (1b_i, 1b_ii, 1b_iii, 1c_i, 1d_ii) fel y bydd modd cyfrifo niferoedd myfyrwyr a dysgwyr newydd ar gyfartaledd.
1.1 Incwm	Wedi'i awtomeiddio.	Caiff incwm ffioedd dysgu senario 2 ei gyfrifo ar sail y niferoedd dysgwyr. Rhagdybir y bydd incwm arall yr un fath â rhagolwg 1.
1.2 Gwariant	Wedi'i awtomeiddio.	Daw o'r prif ragolwg, sef rhagolwg 1 (tabl 1_2z).
2.2 Asedau hylifol	Rhowch arian parod yn y banc ac mewn llaw a buddsoddiadau byrdymor.	Dylai asedau hylifol adlewyrchu rhagolwg y senario a bod yn gyson ag effaith ddisgwyliedig y rhagdybiaethau incwm a gwariant diwygiedig ar arian parod.
6. Mesurau lliniaru	Rhowch y mesurau lliniaru a fyddai'n ofynnol mewn ymateb i bob senario	Bydd mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â chyflogau ac nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau yn effeithio ar warged / (diffyg). Bydd pob mesur lliniaru yn effeithio ar asedau hylifol.

Senario 3 – senario anffafriol y darparwr ei hun

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1. Niferoedd myfyrwyr a dysgwyr	Rhowch niferoedd dysgwyr (rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau)	Cymhwyswch ragdybiaeth y senario at gofrestriadau newydd ac adlewyrchwch gyfansymiau canlyniadol y dysgwyr fesul categori. Esboniwch unrhyw grebwyll a arferir yn y sylwebaeth.
1.1 Incwm	Rhowch y rhagolwg incwm diwygiedig.	Adlewyrchwch effaith y newid i niferoedd dysgwyr ac incwm o ffioedd ac unrhyw newidiadau canlyniadol i gostau.

Pennawd	Mewnbynnu data	Nodiadau
1.2 Gwariant	Rhowch y rhagolwg gwariant diwygiedig.	Adlewyrchwch unrhyw newidiadau canlyniadol i gostau yn sgil effaith y newid i niferoedd dysgwyr ac incwm o ffioedd. Peidiwch â rhagdybio lleihad mewn costau oni bai ei fod yn realistig ac yn cael ei esbonio.
2.2 Asedau hylifol	Rhowch arian parod yn y banc ac mewn llaw a buddsoddiadau byrdymor.	Dylai asedau hylifol adlewyrchu rhagolwg y senario a bod yn gyson ag effaith ddisgwyliedig y rhagdybiaethau incwm a gwariant diwygiedig ar arian parod.

Dilysu ac adolygu cyn cyflwyno

85. Bydd yn rhaid i bob darparwr gwblhau'r tablau hyn.
86. Pan fydd yr holl ddalennau gwaith wedi'u cwblhau, throwch yn ôl at y ddalen waith gwybodaeth am y darparwr a dilysu.
87. Lle bo gwiriad dilysu wedi methu, edrychwch dros y tabl perthnasol a chywirwch y cofnod sylfaenol lle mae'r data'n anghywir.
88. Os bydd y data'n gywir ond y gwiriad dilysu'n methu o hyd, rhowch esboniad clir yn y ddalen waith ddilysu. Dylai'r esboniad fod yn benodol ac yn ddigonol i Medr ddeall pam nad yw'r methiant dilysu yn dynodi gwall.
89. Cyn cyflwyno, dylai darparwyr wirio'r llyfr gwaith i sicrhau ei fod yn gyflawn, yn gyson yn fewnol ac yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, y rhagolygon a'r sylwebaeth a gyflwynir.
90. Mae'n bosibl y bydd Medr yn codi ymholiadau dilynol os bydd angen eglurhad ynghylch y llyfr gwaith, y sylwebaeth neu'r wybodaeth ategol.

Atodiad A – Manylion methodolegol

Cyfrifo niferoedd myfyrwyr a dysgwyr

Dylid rhoi niferoedd myfyrwyr a dysgwyr ar ffurf 'rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau' y flwyddyn astudio, yn hytrach na chyfrif pennau.

Caiff 'rhagdybiaeth o'r niferoedd a fydd yn cwblhau' ei chyfrifo ar sail nifer y myfyrwyr a dysgwyr a gofrestrir llai addasiad ar gyfer myfyrwyr a dysgwyr na fyddant yn cwblhau eu blwyddyn astudio. Gall hyn fod yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol, neu, ar gyfer cyfnodau'r rhagolygon, amcangyfrif o'r niferoedd myfyrwyr a dysgwyr na fyddant yn cwblhau ar sail data tueddiadau hanesyddol.

Ar gyfer data myfyrwyr a dysgwyr, y diffiniad o amser llawn yw lle y bydd fel arfer yn ofynnol i'r fyfyrwr neu'r dysgwr fynychu'r sefydliad, neu rywle arall, am gyfnodau sy'n gyfwerth ag o leiaf 24 wythnos yn y flwyddyn ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, lle y bydd fel arfer yn ddisgwyliedig iddo ymgymryd â chyfnodau o astudio, hyfforddiant, dysgu yn y gweithle, neu leoliad gwaith rhyngosod (nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer blwyddyn allan ryngosod).

Er mwyn i fyfyrwr gael ei ystyried yn un sydd ar flwyddyn allan ryngosod, dylai ei gwrs gyfateb i'r diffiniad o gwrs rhyngosod a nodir yn Atodlen 1 6(1) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2018 (OS 2018 Rhif 191), neu dylai fod ar flwyddyn astudio neu leoliad amser llawn dramor.

Rhan-amser: dylai unrhyw fyfyrwr neu ddysgwr nad yw'n cael ei ystyried yn fyfyrwr neu'n ddysgwr amser llawn neu'n fyfyrwr neu'n ddysgwr sydd ar flwyddyn ryngosod amser llawn gael ei ystyried yn fyfyrwr neu'n ddysgwr rhan-amser. Dylai niferoedd myfyrwyr a dysgwyr ar gyfer cwrs rhan-amser gynrychioli cofrestriadau y disgwylir iddynt **gwblhau'r flwyddyn astudio**, ar ôl darparu ar gyfer nifer y rhagwelir na fyddant yn ei chwblhau.

Cyfrifo staff CPLI

Dylid rhoi niferoedd staff ar ffurf nifer cyfwerth â pherson llawn (CPLI), yn hytrach na chyfrif pennau.

Dylai'r fethodoleg fod yn gyson â'r hyn a ddatgelir yn natganiadau ariannol y darparwr. Bydd hyn fel arfer yn seiliedig ar oriau contract fel cyfran o oriau amser llawn, wedi'u cymhwyso'n gyson drwy gydol y flwyddyn er mwyn rhoi niferoedd staff cyfartalog ar gyfer y flwyddyn.

Dylai'r CPLI ar gyfer aelod rhan-amser o staff gael ei gyfrifo drwy gymharu ag aelod amser llawn cyfatebol o staff.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government